


# Casglu barn y cyhoedd ynglŷn ag opsiynau posibl ar gyfer dyfodol cyfansoddiadol Cymru

*Crynodeb o ganfyddiadau'r arolwg meintiol*

*Gorffennaf 2023*

Y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru
The Independent Commission on the Constitutional Future of Wales

beaufortresearch

# Dull yr arolwg meintiol

## Prif amcanion

- Archwilio lefelau'r ddealltwriaeth am sut y mae Cymru'n cael ei rhedeg ar hyn o bryd
- Archwilio canfyddiadau am sut y mae Cymru'n cael ei rhedeg ar hyn o bryd
- Archwilio sut yr hoffai'r cyfranogwyr weld Cymru'n cael ei rhedeg yn y dyfodol

## Dull

- Arolwg meintiol i gasglu barn sampl **gadarn, gynrychiolaidd** o'r cyhoedd yng Nghymru
- 1,596 o gyfweliadau i gyd, a gynhaliwyd rhwng 18 Mai a 9 Mehefin 2023
  - 1,500 o arolwg panel hunangwblhau ar-lein o oedolion 16+ ledled Cymru
  - Hynny wedi'i ategu gan 96 o gyfweliadau dros y ffôn gyda phobl sydd wedi'u hallgau'n ddigidol (heb ddefnyddio'r rhyngrwyd yn y 3 mis diwethaf)
- Pwysolwyd y data i fireinio cynrychiolaeth yn ôl oedran, rhywedd, gradd gymdeithasol a rhanbarth gan ddefnyddio cyfrannau'r Cyfrifiad




beaufortresearch

# Diddordeb yn sut y mae Cymru'n cael ei rhedeg a gwybodaeth am hynny



# Mae gan 8 ymhob 10 o'r cyhoedd ddiddordeb yn sut y mae Cymru'n cael ei rhedeg, ond mae llai na hanner y gyfran honno'n teimlo'u bod yn gwybod llawer am hynny

C. Faint o ddiddordeb fyddech chi'n dweud sydd gennych yn sut y mae Cymru'n cael ei rhedeg? / C. Faint ydych chi'n teimlo eich bod yn ei wybod am sut y mae Cymru'n cael ei rhedeg?
*Yr hyn a olygwn yw'r strwythurau sy'n bodoli i wneud penderfyniadau a'u rhoi ar waith, nid y pleidiau gwleidyddol sydd mewn grym.*





Mae 73% yn cytuno â'r datganiad "Dydych chi ddim yn gweld nac yn clywed digon am sut y mae Cymru'n cael ei rhedeg yn y cyfryngau"


*Sail (pawb): 1,596*

beaufortresearch

## Mae gan bobl iau lai o ddiddordeb ac maent yn llai gwybodus na grwpiau oedran hŷn; mae gan ddosbarthiadau canol (ABC1) fwy o ddiddordeb ac maent yn fwy gwybodus na'r dosbarthiadau gweithiol (C2DE)

C. Faint o ddiddordeb fyddech chi'n dweud sydd gennych yn sut y mae Cymru'n cael ei rhedeg? / C. Faint ydych chi'n teimlo eich bod yn ei wybod am sut y mae Cymru'n cael ei rhedeg?
*Yr hyn a olygwn yw'r strwythurau sy'n bodoli i wneud penderfyniadau a'u rhoi ar waith, nid y pleidiau gwleidyddol sydd mewn grym.*





*Sail: Pawb (1,596), 16 i 24 (168), 25 i 34 (297), 35 i 44 (300), 45 i 54 (206), 55 i 64 (286), 65+ (339), ABC1 (915), C2DE (681), Ceidwadwyr (284), Llafur (567), Dem Rhydd (126), Plaid Cymru (196), Dim (197)*

beaufortresearch

# Mae llai na hanner yn teimlo'u bod wedi gweld neu glywed llawer am sut y mae Cymru'n cael ei rhedeg yn y 12 mis diwethaf; dim gwelliant dros y 10 mlynedd ddiwethaf





*C. Faint fyddech chi'n dweud eich bod wedi'i weld neu ei glywed am sut y mae Cymru'n cael ei rhedeg dros y 12 mis diwethaf? (%)
**C. Faint fyddech chi'n dweud eich bod wedi'i weld neu ei glywed am waith Cynulliad Cenedlaethol Cymru dros y 12 mis diwethaf? (%)

Sail: Pawb 2023 (1,596), Arolwg y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru 2013 (2,009)
Dylid cymryd gofal wrth gymharu canlyniadau'r arolygon hyn oherwydd methodolegau gwahanol (2023 = Ar-lein, 2013 = Ffôn) a bod y cwestiynau wedi'u geirio ychydig yn wahanol

beaufortresearch

# Newyddion ar y teledu yw’r brif ffynhonnell newyddion a gwybodaeth fel rheol i bobl yng Nghymru, gyda gwefannau newyddion ar-lein a’r cyfryngau cymdeithasol yn dilyn; mae gwahaniaethau amlwg fesul grŵp oedran

## C. Ble ydych chi’n cael eich newyddion a gwybodaeth? (%)




## **Prif ffynhonnell**, fesul oedran (%)

| | 16-24 | 25-34 | 35-44 | 45-54 | 55-64 | 65+ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Newyddion ar y teledu | 14 | 14 | **26** | **33** | **52** | **58** |
| Gwefannau newyddion ar-lein (heb gynnwys apiau) | 20 | 20 | 22 | 25 | 20 | 12 |
| Cyfryngau cymdeithasol | **41** | **35** | 23 | 16 | 4 | 1 |
| Apiau newyddion ar ffôn | 17 | 18 | 17 | 10 | 12 | 5 |
| Newyddion ar y radio | 4 | 7 | 5 | 10 | 7 | 7 |
| Papurau newydd | 1 | 2 | 4 | 2 | 3 | 14 |
| Dim o’r uchod | 2 | 4 | 3 | 3 | 2 | 3 |

*Sail: Pawb (1,596), 16 i 24 (168), 25 i 34 (297), 35 i 44 (300), 45 i 54 (206), 55 i 64 (286), 65+ (339)*

# Mae'r cyhoedd yn gallu adnabod yn gywir pa rai yw'r rhan fwyaf o feysydd a reolir gan Senedd / Llywodraeth Cymru

C. Dyma restr o feysydd. Ar gyfer pob un, dewiswch pwy sy'n rheoli'r maes yn bennaf yng Nghymru yn eich tyb chi: Senedd a Llywodraeth Cymru ynteu Senedd y DU yn San Steffan a Llywodraeth y DU? (%)

| | Senedd Cymru a Llywodraeth Cymru | Senedd y DU yn San Steffan a Llywodraeth y DU | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|
| **Amaethyddiaeth** | 68 | 22 | 10 |
| Darlledu a rheoleiddio'r cyfryngau | 46 | 41 | 13 |
| **Busnes a datblygu economaidd** | 59 | 30 | 12 |
| **Y Llysoedd a'r system Cyfiawnder Troseddol** | 29 | 60 | 11 |
| **Amddiffyn a materion tramor** | 14 | 74 | 12 |
| **Addysg** | 76 | 17 | 7 |
| **Tai** | 73 | 19 | 9 |
| **Iaith a diwylliant** | 86 | 8 | 6 |
| **Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol** | 61 | 31 | 8 |
| Plismona | 57 | 34 | 10 |
| Ynni adnewyddadwy gan gynnwys ffermydd gwynt mawr | 50 | 36 | 13 |
| **Ffyrdd** | 75 | 17 | 8 |
| **Y system lles a budd-daliadau** | 32 | 58 | 10 |

Gwyrdd = ymateb cywir

Coch = ymateb anghywir

*Sail (pawb): 1,596*

beaufortresearch

# Hyd yn oed lle'r oedd y cyhoedd yn nodi'r pwerau'n gywir fel rhai wedi'u datganoli, roedd lleiafrif sylweddol yn ei gael yn anghywir, yn enwedig ar gyfer lles a budd-daliadau, iechyd a chyfiawnder

C. Dyma restr o feysydd. Ar gyfer pob un, dewiswch pwy sy'n rheoli'r maes yn bennaf yng Nghymru yn eich tyb chi: Senedd a Llywodraeth Cymru ynteu Senedd y DU yn San Steffan a Llywodraeth y DU? (%)

| | Senedd Cymru a Llywodraeth Cymru | Senedd y DU yn San Steffan a Llywodraeth y DU | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|
| Amaethyddiaeth | 68 | **22** | 10 |
| Darlledu a rheoleiddio'r cyfryngau | 46 | 41 | 13 |
| Busnes a datblygu economaidd | 59 | **30** | 12 |
| Y Llysoedd a'r system Cyfiawnder Troseddol | **29** | 60 | 11 |
| Amddiffyn a materion tramor | **14** | 74 | 12 |
| Addysg | 76 | **17** | 7 |
| Tai | 73 | **19** | 9 |
| Iaith a diwylliant | 86 | **8** | 6 |
| Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol | 61 | **31** | 8 |
| Plismona | 57 | 34 | 10 |
| Ynni adnewyddadwy g.g. Ffermydd gwynt mawr | 50 | 36 | 13 |
| Ffyrdd | 75 | **17** | 8 |
| Y system lles a budd-daliadau | **32** | 58 | 10 |

**Gwyrdd = ymateb cywir**

**Coch = ymateb anghywir**

*Sail (pawb): 1,596*

beaufortresearch

# Ond mae dryswch ynglŷn â phwy sy'n gyfrifol am rai meysydd, h.y. plismona, ynni adnewyddadwy, darlledu a rheoleiddio'r cyfryngau; hefyd, roedd oddeutu 1 ymhob 10 yn gyffredinol yn methu ag ateb

C. Dyma restr o feysydd. Ar gyfer pob un, dewiswch pwy sy'n rheoli'r maes yn bennaf yng Nghymru yn eich tyb chi: Senedd a Llywodraeth Cymru ynteu Senedd y DU yn San Steffan a Llywodraeth y DU? (%)

| | Senedd Cymru a Llywodraeth Cymru | Senedd y DU yn San Steffan a Llywodraeth y DU | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|
| Amaethyddiaeth | 68 | 22 | 10 |
| **Darlledu a rheoleiddio'r cyfryngau** | **46** | **41** | **13** |
| Busnes a datblygu economaidd | 59 | 30 | 12 |
| Y Llysoedd a'r system Cyfiawnder Troseddol | 29 | 60 | 11 |
| Amddiffyn a materion tramor | 14 | 74 | 12 |
| Addysg | 76 | 17 | 7 |
| Tai | 73 | 19 | 9 |
| Iaith a diwylliant | 86 | 8 | 6 |
| Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol | 61 | 31 | 8 |
| **Plismona** | **57** | **34** | **10** |
| **Ynni adnewyddadwy g.g. Ffermydd gwynt mawr** | **50** | **36** | **13** |
| Ffyrdd | 75 | 17 | 8 |
| Y system lles a budd-daliadau | 32 | 58 | 10 |

**Gwyrdd = ymateb cywir**

**Coch = ymateb anghywir**

*Sail (pawb): 1,596*

beaufortresearch

# O’i gymharu â 10 mlynedd yn ôl, ychydig o welliant a fu yng ngwybodaeth y cyhoedd am ba bwerau sydd wedi’u datganoli i Gymru

C. Dyma restr o feysydd. Ar gyfer pob un, dewiswch pwy sy’n rheoli’r maes yn bennaf yng Nghymru yn eich tyb chi: Senedd a Llywodraeth Cymru ynteu Senedd y DU yn San Steffan a Llywodraeth y DU? (%)

| | Senedd Cymru a Llywodraeth Cymru | | Senedd y DU yn San Steffan a Llywodraeth y DU | |
|---|---|---|---|---|
| Amaethyddiaeth | 68 | **66** | 22 | **26** |
| Darlledu a rheoleiddio’r cyfryngau | 46 | **35** | 41 | **55** |
| Y Llysoedd a’r system Cyfiawnder Troseddol | 29 | **17** | 60 | **75** |
| Amddiffyn a materion tramor | 14 | **4** | 74 | **91** |
| Addysg | 76 | **76** | 17 | **19** |
| Tai | 73 | **73** | 19 | **21** |
| Y Gwasanaeth Iechyd | 61 | **58** | 31 | **37** |
| Plismona | 57 | **48** | 34 | **45** |
| Ynni adnewyddadwy gan gynnwys ffermydd gwynt mawr | 50 | **50** | 36 | **41** |
| Ffyrdd | 75 | **69** | 17 | **23** |
| Y system lles a budd-daliadau | 32 | **22** | 58 | **71** |

Ffigyrau mewn inc **trwm** o Arolwg y Comisiwn ar Ddatganoli yn 2013

Coch = mwy o ddryswch nawr nag yn 2013

Gwyrdd = llai o ddryswch nawr nag yn 2013

*Sail: Pawb 2023 (1,596), Arolwg y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru 2013 (2,009)*
*Dylid cymryd gofal wrth gymharu canlyniadau’r arolygon hyn oherwydd methodolegau gwahanol (2023 = Ar-lein, 2013 = Ffôn). Cymariaethau wedi’u gwneud lle y bo’n bosibl*


beaufortresearch




# Barn ynglŷn â’r sefyllfa ar hyn o bryd

# Mae ychydig dros hanner y cyhoedd yn meddwl bod y system lywodraethu bresennol yng Nghymru'n gweithio'n dda, tra bo ychydig dros 4 ymhob 10 yn meddwl i'r gwrthwyneb


C. Pa mor dda y mae'r system lywodraethu bresennol yng Nghymru'n gweithio yn eich tyb chi? (%)




Sail: Pawb (1,596)

# Mae pobl iau'n hapusach gyda'r system lywodraethu bresennol na phobl hŷn. Eto, ceir gwahaniaethau amlwg yn ôl y pleidiau y maent yn eu cefnogi


C. Pa mor dda y mae'r system lywodraethu bresennol yng Nghymru'n gweithio yn eich tyb chi? (%)





*Sail: Pawb (1,596), 16 i 24 (168), 25 i 34 (297), 35 i 44 (300), 45 i 54 (206), 55 i 64 (286), 65+ (339), ABC1 (915), C2DE (681), Ceidwadwyr (284), Llafur (567), Dem Rhydd (126), Plaid Cymru (196), Dim (197)*

beaufortresearch

# Roedd rhesymau dros sgôr cadarnhaol yn ymwneud â meysydd polisi, gwasanaethau a pherfformiad. Soniwyd am strwythur / newid cyfansoddiadol ar lefel is o lawer





C. Pam ydych chi'n dweud hynny [**yn dda iawn / yn weddol dda**]? Prif resymau y soniwyd amdanynt yn ddigymell (%)





*Sail (pawb): 1,596*

beaufortresearch

# Mae’r rhai sy’n meddwl bod y system bresennol yn gweithio’n dda’n canolbwyntio’n bennaf ar feysydd polisi a gwasanaethau; ond maent hefyd yn sôn am y sefyllfa economaidd gyffredinol




C. Pam ydych chi’n dweud hynny [**ddim yn dda iawn / ddim yn dda o gwbl**]? Prif resymau y soniwyd amdanynt yn ddigymell (%)





*Sail (pawb): 1,596*

beaufortresearch

# Mae 4 ymhob 10 yn meddwl bod datganoli wedi bod yn dda i Gymru (dwywaith cymaint ag sy'n meddwl i'r gwrthwyneb), ond nid yw 3 ymhob 10 yn gweld unrhyw wahaniaeth

C. Ar y cyfan, ydych chi'n meddwl bod datganoli wedi bod yn dda i Gymru? (%)





*Sail (pawb): 1,596*

beaufortresearch


# Mae'r cyfrannau sy'n meddwl bod gan Gymru lais cryfach yn y DU gyda Senedd / Llywodraeth Cymru'n debyg i'r rhai sy'n teimlo bod datganoli wedi bod o fudd i Gymru

C. Ar y cyfan, ydych chi'n meddwl bod datganoli wedi bod yn dda i Gymru? (%)

*Mae Llywodraeth Cymru a Senedd Cymru wedi…*




C. Ydych chi'n meddwl bod bodolaeth Senedd Cymru a Llywodraeth Cymru ers datganoli wedi rhoi'r canlynol i Gymru…? (%)




Ond mae 92% yn cytuno â'r datganiad "Mae'n bwysig bod Llywodraeth y DU a Chymru'n cydweithio'n dda"


Dim ond 31% sy'n meddwl bod llywodraethau'r DU a Chymru wedi cydweithio'n dda i wneud yr hyn sydd orau i Gymru (mae 62% yn dweud i'r gwrthwyneb)

*Sail (pawb): 1,596*

beaufortresearch

# Mae bodlonrwydd yng Nghymru'n sylweddol uwch ar berfformiad Senedd / Llywodraeth Cymru nag ar Senedd / Llywodraeth y DU, ond nid yw sgoriau'n dangos rhyw lawer o hyder

C. Pa mor fodlon ydych chi ar ba mor effeithiol y mae pob un o'r canlynol yn gwneud ei gwaith?
*(Sgôr cymedrig: 10 = eithriadol o fodlon, 0 = eithriadol o anfodlon)*





*Sail: pawb (1,596), 16 i 34 (465), 35 i 54 (506), 55+ (339)*

beaufortresearch

# Mae pobl iau'n fwy bodlon ar berfformiad Senedd / Llywodraeth Cymru na phobl hŷn

C. Pa mor fodlon ydych chi ar ba mor effeithiol y mae pob un o'r canlynol yn gwneud ei gwaith?
*(Sgôr cymedrig: 10 = eithriadol o fodlon, 0 = eithriadol o anfodlon)*





*Sail: pawb (1,596), 16 i 34 (465), 35 i 54 (506), 55+ (339)*

Mae 72% yn cytuno â'r datganiad "Mae gwleidyddion yn Senedd Cymru'n deall anghenion Cymru'n well na gwleidyddion yn Senedd y DU"

# Cefnogwyr y Ceidwadwyr yw'r unig grŵp sy'n rhoi sgôr uwch i berfformiad Llywodraeth / Senedd y DU nag i berfformiad Senedd / Llywodraeth Cymru

C. Pa mor fodlon ydych chi ar ba mor effeithiol y mae pob un o'r canlynol yn gwneud ei gwaith?
*(Sgôr cymedrig: 10 = eithriadol o fodlon, 0 = eithriadol o anfodlon)*





*Sail: pawb (1,596), Ceidwadwyr (284), Llafur (567), Dem Rhydd (126), Plaid Cymru (196), Dim (197)*

beaufortresearch

# Mae ymddiriedaeth yn sylweddol uwch yn Senedd / Llywodraeth Cymru i wneud yr hyn sydd orau i Gymru nag yn Senedd / Llywodraeth y DU


C. I ba raddau, os o gwbl, ydych chi'n ymddiried yn...i wneud yr hyn sydd orau i Gymru?




*Sail (pawb): 1,596*

# Gan feddwl am y dryswch presennol ynglŷn â phwerau, mae tua 4 ymhob 10 yn hapus gyda'r sefyllfa fel y mae, tra bo cyfran debyg yn meddwl bod gan Gymru reolaeth dros rhy ychydig o feysydd; dwywaith cymaint ag sy'n meddwl bod ganddi ormod o bwerau

C. Yn eich barn chi, a oes gan Senedd Cymru a Llywodraeth Cymru reolaeth dros...? (%)





*Sail: Pawb (1,596), 16 i 24 (168), 25 i 34 (297), 35 i 44 (300), 45 i 54 (206), 55 i 64 (286), 65+ (339), ABC1 (915), C2DE (681), Ceidwadwyr (284), Llafur (567), Dem Rhydd (126), Plaid Cymru (196)*


beaufortresearch

# Rhesymau dros deimlo bod gan Senedd / Llywodraeth Cymru reolaeth dros rhy ychydig o feysydd

C. Yn eich barn chi, a oes gan Senedd Cymru a Llywodraeth Cymru reolaeth dros...? (%)




C. Pam ydych chi'n meddwl bod ganddi reolaeth dros **rhy ychydig** o feysydd? Prif resymau y soniwyd amdanynt yn ddigymell (%)





*"Byddwn i'n teimlo'n hapusach yn gwybod bod y pwerau hyn gan Gymru. Ar hyn o bryd mae'n teimlo fel pe bai Cymru heb unrhyw reolaeth mewn polisïau pwysig fel plismona, gan bod gan Gymru anghenion gwahanol... Rwy'n meddwl y dylai'r mathau hyn o bolisïau gael eu datganoli"*

Sail (pawb): 1,596


beaufortresearch

# Rhesymau dros deimlo bod gan Senedd / Llywodraeth Cymru reolaeth dros ormod o feysydd

C. Yn eich barn chi, a oes gan Senedd Cymru a Llywodraeth Cymru reolaeth dros...? (%)




C. Pam ydych chi’n meddwl bod ganddi reolaeth dros **ormod** o feysydd? Prif resymau y soniwyd amdanynt yn ddigymell (%)




*“Dydw i ddim yn siŵr a fyddai arnaf eisiau rhagor o bwerau datganoledig. Mae’n ddigon cymhleth yn awr a byddai mwy na thebyg yn costio mwy.... Dydw i ddim yn siŵr a ydw i’n ymddiried yn y [blaid sydd mewn grym] ar hyn o bryd yng Nghymru i wneud y gwaith yn iawn. Gormod o ‘sgorio pwyntiau’ i fod yn ymboeni am fuddiannau’r pobl.”*

*Sail (pawb): 1,596*




# Edrych tua’r dyfodol

beaufortresearch

# Hoffai bron i 8 ymhob 10 weld newidiadau i'r ffordd y mae Cymru'n cael ei rhedeg yn y dyfodol; cefnogwyr Plaid a phobl iau sydd â'r awydd mwyaf am newid

C. A hoffech chi weld newidiadau'n cael eu gwneud i sut y mae Cymru'n cael ei rhedeg yn y dyfodol? Yr hyn a olygwn yw'r strwythurau sy'n bodoli i wneud penderfyniadau a'u rhoi ar waith, nid y pleidiau gwleidyddol sydd mewn grym. (%)





Mae 76% yn cytuno â'r datganiad "Mae'n bwysig bod Cymru'n gallu rheoli ei materion ei hun a gwneud ei phenderfyniadau ei hun"

*Sail: Pawb (1,596), 16 i 24 (168), 25 i 34 (297), 35 i 44 (300), 45 i 54 (206), 55 i 64 (286), 65+ (339), ABC1 (915), C2DE (681), Ceidwadwyr (284), Llafur (567), Dem Rhydd (126), Plaid Cymru (196), Dim (197)*

beaufortresearch

# Mae’r prif newidiadau y galwyd amdanynt yn ddigymell yn gysylltiedig â pholisi; themâu eraill yw rhagor o bwerau i Gymru a mwy o ffocws ar ymgysylltu â’r cyhoedd a’u cynnwys

## C. Pa newidiadau hoffech chi eu gweld yn cael eu gwneud? Prif newidiadau y soniwyd amdanynt yn ddigymell (%)





*Sail (y rhai a hoffai weld newidiadau’n cael eu gwneud i’r ffordd y mae Cymru’n cael ei rhedeg): 1,232*

beaufortresearch

# Pan gyflwynwyd pum opsiwn ar gyfer dyfodol Cymru, roedd ychydig dros 1 ymhob 5 yn hapus gyda'r sefyllfa fel y mae, roedd ar tua hanner eisiau rhagor o bwerau neu annibyniaeth, tra bo ar 1 ymhob 5 eisiau llai o bwerau neu ddiddymu Senedd Cymru

C. Ar hyn o bryd, ar y cyfan, pa un o'r datganiadau hyn sydd agosaf at eich barn chi ynglŷn â Chymru? (%)





*Sail: (pawb) 1,596*

beaufortresearch

# Pobl iau sydd fwyaf tebygol o fod eisiau annibyniaeth neu ragor o bwerau, pobl hŷn sydd fwyaf tebygol o fod eisiau diddymu neu lai o bwerau; mae gwahaniaethau mawr yn ôl y blaid a gefnogir

C. Ar hyn o bryd, ar y cyfan, pa un o'r datganiadau hyn sydd agosaf at eich barn chi ynglŷn â Chymru? (%)





*Sail: (pawb) 1,596, 16 i 34 (465), 35 i 54 (506), 55+ (339), ABC1 (915), C2DE (681), Ceidwadwyr (284), Llafur (567), Dem Rhydd (126), Plaid (196), Dim (197)*

beaufortresearch

# Y rhai sy'n ystyried eu hunain yn Gymreig nid Prydeinig oedd fwyaf tebygol o fod eisiau annibyniaeth, a'r rhai sy'n eu hystyried eu hunain yn Brydeinig nid Cymreig oedd fwyaf tebygol o fod eisiau diddymu Senedd Cymru

C. Ar hyn o bryd, ar y cyfan, pa un o'r datganiadau hyn sydd agosaf at eich barn chi ynglŷn â Chymru? (%)





*Sail: (pawb) 1,596, Cymreig nid Prydeinig (318), Mwy Cymreig na Phrydeinig (306), Yr un mor Gymreig a Phrydeinig (443), Mwy Prydeinig, na Chymreig (122), Prydeinig nid Cymreig (285), Dim un o'r rhain (114)*

beaufortresearch

# Mae ble y mae pobl yn byw yng Nghymru'n llai tebygol o ddylanwadu ar eu barn na ffactorau eraill fel oedran, y blaid y maent yn ei chefnogi a hunaniaeth genedlaethol

C. Ar hyn o bryd, ar y cyfan, pa un o'r datganiadau hyn sydd agosaf at eich barn chi ynglŷn â Chymru? (%)





*Sail: (pawb) 1,596, Gogledd Cymru (320), Canolbarth/Gorllewin Cymru (248), De Orllewin Cymru (229), Y Cymoedd (311), Caerdydd a De Ddwyrain Cymru (483)*

beaufortresearch

## Dros y 10 mlynedd ddiwethaf mae barn pobl wedi pegynnu, e.e. mae cyfran uwch yn cefnogi annibyniaeth yn awr; mae hyn hefyd yn wir am ddiddymu Senedd Cymru; mae ar lai eisiau rhagor o bwerau i Senedd Cymru

C. Ar hyn o bryd, ar y cyfan, pa un o'r datganiadau hyn sydd agosaf at eich barn chi ynglŷn â Chymru? (%)




*Sail: Pawb 2023 (1,596), Arolwg y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru 2013 (2,009)*
**Dylid cymryd gofal wrth gymharu canlyniadau'r arolygon hyn oherwydd methodolegau gwahanol (2023 = Ar-lein, 2013 = Ffôn)*

beaufortresearch

# Adroddiad interim y Comisiwn – tri opsiwn posibl ar gyfer dyfodol Cymru

Cyn cyflwyno tri opsiwn posibl y Comisiwn iddynt, rhoddwyd yr esboniad hwn i ymatebwyr i'r arolwg

Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru.

Maen nhw'n ystyried sut y mae Cymru'n cael ei rhedeg yn awr a sut allai gael ei rhedeg yn y dyfodol gan gynnwys:

- Pwy sydd â'r pŵer dros beth yng Nghymru
- Y rheolau ar gyfer sut y mae Cymru'n cael ei rhedeg
- Pwy sy'n gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar bobl Cymru
- Pa rannau o fywyd ddylai Cymru allu gwneud ei rheolau a'i phenderfyniadau ei hun arnynt
- Syniadau newydd ar gyfer sut y gellir gwella hyn i gyd

Maen nhw wedi cyhoeddi adroddiad interim, gyda thri opsiwn posibl ar gyfer sut y bydd Cymru'n cael ei rhedeg yn y dyfodol ac fe hoffent wybod beth mae pobl yn ei feddwl am bob un o'r rhain.


C. Pa un o'r tri opsiwn isod, os o gwbl, fyddai eich hoff ddewis?

Os nad ydych yn cytuno ag unrhyw un o'r opsiynau gallwch awgrymu rhywbeth arall (a allai gynnwys gadael pethau fel y maent) neu ddewis 'dim un o'r rhain'.

- **Datganoli: wedi'i gryfhau a'i ddiogelu** – Mae hyn yn golygu sicrhau nad yw'r pwerau sydd gan Gymru i wneud ei phenderfyniadau ei hun yn gallu cael eu cymryd i ffwrdd gan Lywodraeth y DU. Gallai hefyd olygu estyn y cyfrifoldebau sydd gan Gymru – er enghraifft i gynnwys y system gyfiawnder a phlismona.
- **Strwythur ffederal** – Mae hyn yn golygu newid gwleidyddol ledled y DU gyfan gyda chyfansoddiad yn nodi rôl a chyfrifoldebau pob lefel o lywodraeth, gan gynnwys cyrff datganoledig yn Lloegr (yn debyg i sut y caiff UDA eu llywodraethu). Byddai Llywodraeth y DU yn gyfrifol dim ond am bolisïau ar gyfer y DU gyfan fel amddiffyn a pholisi economaidd ar y cyfan. Byddai gan Loegr ei Senedd ei hun neu o bosibl seneddau ar wahân ar gyfer gwahanol ranbarthau yn Lloegr.
- **Annibyniaeth** – Mae hyn yn golygu bod Cymru'n dod yn wlad annibynnol. Byddai Cymru'n gwneud ei rheolau a'i chyfreithiau ei hun i gyd ac yn casglu trethi ac yn rheoli ei harian ei hun. Byddai Cymru'n cymryd cyfrifoldeb am yr holl faterion ariannol ac ni fyddai'n dibynnu ar gymorth Llywodraeth y DU.
- Rhywbeth arall (rhowch fanylion)
- Dim un o'r rhain
- Ddim yn gwybod

## Pan gyflwynwyd tri opsiwn y Comisiwn iddynt, dewisodd y gyfran uchaf yr opsiwn Datganoli: wedi'i gryfhau a'i ddiogelu, gyda Strwythur ffederal, ac yna Annibyniaeth yn dilyn

C. Pa un o'r tri opsiwn isod, os o gwbl, fyddai eich hoff ddewis chi? (%)





*Sail: (pawb) 1,596, 16 i 34 (465), 35 i 54 (506), 55+ (339), ABC1 (915), C2DE (681), Ceidwadwyr (284), Llafur (567), Dem Rhydd (126), Plaid (196), Dim (197)*

beaufortresearch

## Y rhai sy’n ystyried eu hunain yn Gymreig nid Prydeinig oedd fwyaf tebygol o ddewis Annibyniaeth. Y rhai sy’n ystyried eu hunain yn Brydeinig nid Cymreig neu’n Fwy Prydeinig na Chymreig oedd fwyaf tebygol o wrthod pob un o’r tri opsiwn

C. Pa un o’r tri opsiwn isod, os o gwbl, fyddai eich hoff ddewis chi? (%)





*Sail: (pawb) 1,596, Cymreig nid Prydeinig (318), Mwy Cymreig na Phrydeinig (306), Yr un mor Gymreig a Phrydeinig (443), Mwy Prydeinig, na Chymreig (122), Prydeinig nid Cymreig (285), Dim un o’r rhain (114)*

beaufortresearch

# Fel a welwyd yn gynharach, mae ble y mae pobl yn byw yng Nghymru’n cael llai o effaith ar eu barn na’u hoedran, y blaid y maent yn ei chefnogi a’u hunaniaeth genedlaethol

C. Pa un o’r tri opsiwn isod, os o gwbl, fyddai eich hoff ddewis chi? (%)




*Sail: (pawb) 1,596, Gogledd Cymru (320), Canolbarth/Gorllewin Cymru (248), De Orllewin Cymru (229), Y Cymoedd (311), Caerdydd a De Ddwyrain Cymru (483)*

beaufortresearch

# Manteision / anfanteision canfyddedig Datganoli: wedi'i gryfhau a'i ddiogelu

Pan gawsant eu cynorthwyo â chyfres o fanteision / problemau, dyma oedd patrwm yr ymatebion:

| Manteision | % |
|---|---|
| Gallai ganiatáu i Senedd a Llywodraeth Cymru wneud mwy o benderfyniadau sy'n effeithio ar Gymru, er enghraifft ynghylch plismona, pe bai datganoli wedi'i gryfhau'n dod gyda rhagor o bolisïau wedi'u datganoli i Gymru | **52** |
| Byddai'n atal Senedd a Llywodraeth y DU rhag gwneud newidiadau i bwerau Cymru heb gytundeb Senedd Cymru | **48** |
| Byddai'n darparu sylfaen fwy sefydlog ar gyfer sut mae Cymru'n cael ei rhedeg | **40** |
| Gallai arwain at berthnasoedd gweithio gwell rhwng llywodraethau trwy greu trefniadau gweithio mwy strwythuredig | **36** |
| Ni fyddai'n ofynnol cyflwyno newidiadau ar gyfer Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon na fyddai'n cael eu cefnogi gan bobl yno o bosibl | **32** |
| Arall | 0 |
| Dim / dim byd | 15 |
| Ddim yn gwybod | 7 |

| Anfanteision / problemau | % |
|---|---|
| Byddai'n golygu na allai Llywodraeth y DU ariannu rhai pethau yng Nghymru yr oedd ar rai Cynghorau a phobl eu heisiau ond yr oedd Llywodraeth Cymru yn eu gwrthwynebu, er enghraifft mewn cynlluniau trafnidiaeth | **42** |
| Gallai arwain at berthnasoedd gweithio gwaeth rhwng llywodraethau oherwydd gallai fod sefyllfa annatrys rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU | **41** |
| Byddai'n arwain at fwy o wahaniaeth cyfeiriad rhwng sut y mae Cymru'n cael ei rhedeg a sut y mae gweddill y DU yn cael ei rhedeg, gan greu'r potensial ar gyfer tensiynau rhwng gwledydd y DU | **38** |
| Byddai'n lleihau gallu Senedd San Steffan i gael y gair olaf dros sut y mae pob rhan o'r Deyrnas Unedig yn cael ei redeg | **31** |
| Nid yw'n mynd yn ddigon pell | **18** |
| Arall | 1 |
| Dim / dim byd | 11 |
| Ddim yn gwybod | 8 |

# Manteision / anfanteision canfyddedig Strwythur ffederal

Pan gawsant eu cynorthwyo â chyfres o fanteision / problemau, dyma oedd patrwm yr ymatebion:

| Manteision | % |
|---|---|
| Gallai ganiatáu i Senedd a Llywodraeth Cymru wneud mwy o benderfyniadau sy'n effeithio ar Gymru, er enghraifft ynghylch plismona | **41** |
| Byddai'n egluro terfynau a chyfrifoldebau pob lefel o lywodraeth | **41** |
| Byddai'n atal Senedd a Llywodraeth y DU rhag gwneud newidiadau i bwerau Cymru heb gytundeb Senedd Cymru | **40** |
| Byddai'n darparu sylfaen fwy sefydlog a thryloyw ar gyfer sut y mae Cymru'n cael ei rhedeg ac yn rhoi gwledydd y DU ar sail gyfartal | **39** |
| Gallai arwain at berthnasoedd gweithio gwell rhwng llywodraethau trwy greu trefniadau gweithio mwy strwythuredig | **36** |
| Arall | 1 |
| Dim / dim byd | 13 |
| Ddim yn gwybod | 9 |

| Anfanteision / problemau | % |
|---|---|
| Byddai angen newidiadau mawr ar draws gwledydd eraill y DU na fyddai ar bobl yn y gwledydd hynny eu heisiau o bosibl e.e. byddai angen senedd newydd, ar wahân, ar gyfer Lloegr, neu sawl senedd ranbarthol ledled Lloegr neu fwy o bwerau i'r Cynulliad yng Ngogledd Iwerddon | **45** |
| Efallai y byddai'n wleidyddol amhosibl i'w gyflawni pe bai pobl yn Lloegr, er enghraifft, yn gwrthwynebu system lywodraethu ffederal ar gyfer y DU | **43** |
| Byddai'n gymhleth, yn mynd â llawer o amser ac yn ddrud i'w sefydlu | **41** |
| Mae perygl o sefyllfa annatrys dros faterion pwysig fel sut i fynd i'r afael â newid hinsawdd rhwng Llywodraeth Cymru a llywodraethau eraill y DU | **40** |
| Byddai'n golygu na allai Llywodraeth y DU ariannu rhai pethau yng Nghymru yr oedd ar rai Cynghorau a phobl eu heisiau ond yr oedd Llywodraeth Cymru yn eu gwrthwynebu | **37** |
| Arall | 1 |
| Dim / dim byd | 9 |

# Manteision / anfanteision canfyddedig Annibyniaeth

Pan gawsant eu cynorthwyo â chyfres o fanteision / problemau, dyma oedd patrwm yr ymatebion:

| Manteision | % |
|---|---|
| Byddai'n rhoi mwy o hyblygrwydd i Gymru roi polisïau ar waith sydd wedi'u teilwra'n benodol i anghenion Cymru ac i benderfynu sut y mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu hariannu a'u darparu | **48** |
| Ni fyddai unrhyw ddryswch ynghylch pa Lywodraeth oedd yn gyfrifol am beth ac ni allai Llywodraeth Cymru feio'r DU am bethau nad oeddent yn gweithio | **46** |
| Byddai Cymru'n gallu trafod ei chytundebau masnach ei hun, a phenderfynu pa gonfensiynau rhyngwladol a chyrff rhyngwladol i ymuno â hwy | **42** |
| Byddai'n rhoi rheolaeth hirdymor i bobl yng Nghymru dros eu dyfodol | **41** |
| Byddai'n rhoi cyfle i Gymru ail-ymuno â'r UE | **41** |
| Gallai arwain at well perthynas â Llywodraeth gweddill y DU, gan y byddai'r ddwy Lywodraeth yn negodi o safle cyfartal | **26** |
| Arall | 1 |
| Dim / dim byd | 16 |
| Ddim yn gwybod | 6 |

| Anfanteision / problemau | % |
|---|---|
| Byddai angen i Gymru barhau i gydweithio â Lloegr a gweddill y DU ar faterion trawsffiniol fel trafnidiaeth, gyda'r posibilrwydd o ball ar wasanaethau, mewnforion ac allforion pe na bai’r gwledydd yn gallu dod i gytundeb | **54** |
| Byddai'n anodd codi digon o arian o drethi yng Nghymru ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus - efallai y byddai angen codi trethi neu gwtogi ar wasanaethau | **53** |
| Byddai'n anodd rhoi ffin genedlaethol yn ei lle rhwng Cymru a Lloegr heb achosi problemau a chost i fusnesau a phobl yng Nghymru - yn enwedig pe bai Cymru'n ailymuno â'r UE | **51** |
| Byddai Cymru’n wladwriaeth fach ar y llwyfan byd-eang a byddai'n dal i fod dan bwysau sylweddol | **49** |
| Byddai'n gymhleth, yn mynd â llawer o amser ac yn ddrud i'w sefydlu | **44** |
| Byddai'n cynnwys penderfyniadau mawr ar bethau fel pa arian cyfred i'w ddefnyddio a pholisi mewnfudo | **39** |
| Arall | 2 |
| Dim / dim byd | 8 |
| Ddim yn gwybod | 6 |

# Crynodeb

## Diddordeb yn sut y mae Cymru'n cael ei rhedeg a gwybodaeth am hynny

- Mae gan 8 ymhob 10 o'r cyhoedd ddiddordeb yn sut y mae Cymru'n cael ei rhedeg, ond mae llai na hanner y gyfran honno'n teimlo'u bod yn gwybod llawer am hynny.
- Mae gan bobl iau lai o ddiddordeb ac maent yn llai gwybodus na grwpiau oedran hŷn; mae gan ddosbarthiadau canol (ABC1) fwy o ddiddordeb ac maent yn llai gwybodus na'r dosbarthiadau gweithiol (C2DE).
- Mae llai na hanner yn teimlo'u bod wedi gweld neu glywed llawer am sut y mae Cymru'n cael ei rhedeg yn y 12 mis diwethaf; ymddengys na fu unrhyw welliant ar y mesur hwn dros y 10 mlynedd ddiwethaf.
- Newyddion ar y teledu yw'r brif ffynhonnell newyddion a gwybodaeth fel rheol i bobl yng Nghymru, gyda gwefannau newyddion ar-lein a'r cyfryngau cymdeithasol yn dilyn. Mae gwahaniaethau amlwg fesul grŵp oedran – y cyfryngau cymdeithasol yw'r brif sianel wybodaeth ar gyfer pobl 16-34 oed, a newyddion ar y teledu yw'r brif sianel ar gyfer pobl dros 55.
- Er bod y cyhoedd yn gallu adnabod yn gywir pa rai yw'r rhan fwyaf o feysydd a reolir gan Senedd / Llywodraeth Cymru, ceir dryswch ynglŷn â phwy sy'n gyfrifol am rai meysydd (plismona, ynni adnewyddadwy, darlledu a rheoleiddio'r cyfryngau). Hyd yn oed lle'r oedd y mwyafrif yn nodi'r pwerau'n gywir fel rhai wedi'u datganoli, roedd lleiafrif sylweddol yn ei gael yn anghywir, yn enwedig ar gyfer lles a budd-daliadau, ac iechyd
- Wrth gymharu'r canlyniadau â 10 mlynedd yn ôl, ymddengys mai ychydig o welliant a fu yng ngwybodaeth y cyhoedd am ba bwerau sydd wedi'u datganoli i Gymru.

# Crynodeb

## Barn ynglŷn â'r sefyllfa ar hyn o bryd

- Mae oddeutu hanner y cyhoedd yn meddwl bod y system lywodraethu bresennol yng Nghymru'n gweithio'n dda, tra bo ychydig dros 4 ymhob 10 yn meddwl i'r gwrthwyneb.
- Mae 4 ymhob 10 yn meddwl bod datganoli wedi bod yn dda i Gymru, mae dwywaith cymaint yn meddwl i'r gwrthwyneb, ond nid yw 3 ymhob 10 yn gweld unrhyw wahaniaeth.
- Mae bodlonrwydd yng Nghymru'n sylweddol uwch ar berfformiad Senedd / Llywodraeth Cymru nag ar berfformiad Senedd / Llywodraeth y DU, ond nid yw'r sgoriau'n dangos rhyw lawer o hyder.
    - Mae pobl iau'n fwy bodlon ar berfformiad y Senedd / Llywodraeth Cymru na phobl hŷn.
    - Cefnogwyr y Ceidwadwyr yw'r unig grŵp sy'n rhoi sgôr uwch i Lywodraeth / Senedd y DU nag i Senedd / Llywodraeth Cymru.
- Mae ymddiriedaeth yn sylweddol uwch yn Senedd / Llywodraeth Cymru i wneud yr hyn sydd orau i Gymru nag ydyw yn Senedd / Llywodraeth y DU.
- Gan feddwl bod dryswch o hyd ynglŷn â pha bwerau sydd gan Senedd / Llywodraeth Cymru, mae tua 4 ymhob 10 yn hapus gyda'r sefyllfa fel y mae, tra bo cyfran debyg yn meddwl bod gan Gymru reolaeth dros rhy ychydig o feysydd; dwywaith cymaint ag sy'n meddwl bod ganddi ormod o bwerau.

# Crynodeb

## Edrych tua'r dyfodol

- Hoffai bron i 8 ymhob 10 weld newidiadau i'r ffordd y mae Cymru'n cael ei rhedeg yn y dyfodol; cefnogwyr Plaid a phobl iau sydd â'r awydd mwyaf am newid.
- Mae'r prif newidiadau y galwyd amdanynt yn ddigymell yn gysylltiedig â pholisi; themâu eraill yw rhagor o bwerau i Gymru a mwy o ffocws ar ymgysylltu â'r cyhoedd a'u cynnwys.
- Pan gyflwynwyd pum opsiwn ar gyfer dyfodol Cymru, roedd ychydig dros 1 ymhob 5 yn hapus gyda'r sefyllfa fel y mae, roedd ar tua hanner eisiau rhagor o bwerau neu annibyniaeth, tra bo ar 1 ymhob 5 eisiau llai o bwerau neu ddiddymu Senedd Cymru.
  - Pobl iau sydd fwyaf tebygol o fod eisiau annibyniaeth neu ragor o bwerau, pobl hŷn sydd fwyaf tebygol o fod eisiau diddymu neu lai o bwerau; ac mae gwahaniaethau mawr yn ôl y blaid a gefnogir.
  - Y rhai sy'n ystyried eu hunain yn Gymreig nid Prydeinig oedd fwyaf tebygol o fod eisiau annibyniaeth, a'r rhai sy'n eu hystyried eu hunain yn Brydeinig nid Cymreig oedd fwyaf tebygol o fod eisiau diddymu Senedd Cymru.
  - Mae ble y mae pobl yn byw yng Nghymru'n llai tebygol o ddylanwadu ar eu barn na ffactorau eraill fel oedran, y blaid y maent yn ei chefnogi a hunaniaeth genedlaethol.
- Dros y 10 mlynedd ddiwethaf ymddengys fod barn pobl wedi pegynnu, e.e. mae'r gyfran sy'n cefnogi annibyniaeth wedi codi; ac felly hefyd y gyfran y mae arnynt eisiau diddymu Senedd Cymru.
- Pan gyflwynwyd tri opsiwn y Comisiwn iddynt, dewisodd y gyfran uchaf yr opsiwn **Datganoli: wedi'i gryfhau a'i ddiogelu**, gyda **Strwythur ffederal**, ac yna **Annibyniaeth** yn dilyn.
  - Y rhai sy'n ystyried eu hunain yn Gymreig nid Prydeinig oedd fwyaf tebygol o ddewis Annibyniaeth, a'r rhai sy'n ystyried eu hunain yn Brydeinig nid Cymreig neu'n Fwy Prydeinig na Chymreig oedd fwyaf tebygol o wrthod pob un o'r tri opsiwn.
  - Eto, mae ble y mae pobl yn byw yng Nghymru'n cael llai o effaith ar eu barn na'u hoedran, y blaid y maent yn ei chefnogi a'u hunaniaeth genedlaethol.











# **Diolch yn fawr**
## ***Thanks very much***

Y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru
The Independent Commission on the Constitutional Future of Wales

beaufortresearch